## DEUNYDDIAU ATEGOL

# CYMRU YSBRYDOLEDIG

Mae dysgwyr yn ystyried ble mae eu hoff leoedd a pham maen nhw'n golygu cymaint iddyn nhw. Maen nhw'n ystyried ac yn gwneud ymchwil i'r gair 'cynefin', cyn creu a gwerthuso poster o'r enw 'Beth mae cynefin yn ei olygu i chi?'.

Mae dysgwyr yn ystyried sut y gallai pobl leol ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored, cynnal arolwg digidol a gofyn i bobl sut a pham maen nhw'n defnyddio'r awyr agored. Maent yn dadansoddi'r data a gasglwyd ac yn ei ddefnyddio fel sail i rannu eu canfyddiadau mewn cyflwyniad byr.

Mae dysgwyr yn ystyried y gweithgareddau awyr agored y mae'r Geidiaid a'r Sgowtiaid yn ymgymryd â nhw ac yn datblygu bathodyn neu wobr y gellid ei gynnig ar dir eu hysgol.
Mae dysgwyr yn ystyried gwaith artist adnabyddus ac yn creu braslun mewn arddull tebyg. Darllenant farddoniaeth ddwyieithog a'i defnyddio fel ysgogiad i ysgrifennu cerdd am yr awyr agored.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd Dysgu a Phrofiad a archwiliwyd:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o recordio golygfeydd a synau, e.e. tabled, ffôn clyfar, papur a phensiliau, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## SUT MAE'R AWYR AGORED YN GYMORTH I GYNNAL EIN HIECHYD A'N LLES?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i feddwl am eu hoff leoedd ac ystyried manteision bod yn yr awyr agored, cyn iddynt archwilio eu cynefin.

### Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y sgrîn gyntaf, sy'n dangos delweddau o amgylcheddau awyr agored yng Nghymru. Gallant wneud hyn yn annibynnol neu gallwch chi ddangos cynnwys y sgrîn iddyn nhw. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau ar y sgrîn, gyda phartner. Gallech chi drafod eu hatebion gyda'r dosbarth.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae eich hoff leoedd? Pam mai'r rhain yw eich hoff leoedd?
- Beth sy'n eu gwneud yn arbennig?
- Pam maen nhw'n bwysig i chi?
- Pryd ydych chi'n meddwl am y lleoedd hyn? Pam?
- Beth allwch chi ei weld, ei glywed, ei arogli a'i deimlo yn eich hoff leoedd?

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr gau eu llygaid ac yna chwarae'r clip sain iddyn nhw gael gwrando arno. Gofynnwch iddynt ystyried y cwestiynau canlynol, gan gymryd adborth gan rai dysgwyr fel sail i drafodaeth.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei glywed? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble gallai hyn fod? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut mae'r synau hyn yn gwneud i chi deimlo? Pam?

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i fynd at y sgrîn nesaf ac i ystyried beth yw manteision ac anfanteision bod yn yr awyr agored, yn eu barn nhw. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol gyda phartner.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw manteision treulio amser yn yr awyr agored? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut mae bod yn yr awyr agored yn gwneud i chi deimlo? Pam?
- Beth allech chi ei ddysgu o fod yn yr awyr agored?
- Beth efallai yw anfanteision bod yn yr awyr agored? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Gallech chi drafod eu hatebion gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yn annibynnol yr hyn a ddywedodd Syr David Attenborough am blant a natur, neu dangoswch y testun iddyn nhw. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth mae'n ei olygu wrth hyn, yn eich barn chi?
- Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag ef? Pam?
- Beth ydych chi'n ei hoffi am natur? Pam?
- Beth allech chi ei wneud i warchod natur? Sut allech chi wneud hyn?

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y Cwricwlwm i Gymru yn annog dysgu a gweithgareddau yn yr awyr agored. Hefyd, dywedwch fod yr ymadrodd canlynol i'w ganfod yn y '*Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles*' (Llywodraeth Cymru, 2020):

**'...bydd mwynhau gweithgareddau awyr agored yn dylanwadu ar iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr.'**

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw ystyr 'iechyd meddwl' a 'lles emosiynol', yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn? Pam?
- Sut ydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored? Pam?

## Sgrîn 8

Ar y sgrîn hon, ystyrir 'cynefin', gan amlinellu sut mae'n cael ei ddiffinio yn y Cwricwlwm i Gymru.

**'Cynefin – Dyma'r man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd i'w hadnabod. Nid dim ond man yn yr ystyr daearyddol neu ffisegol ydyw, serch hynny. Dyma'r lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy'n parhau i ffurfio'r gymuned sy'n trigo yno.'**

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- I ble ydych chi'n perthyn, yn eich barn chi? Pam?
- Pwy yw'r bobl o'ch cwmpas sy'n gyfarwydd i chi? Sut maen nhw'n gwneud i chi deimlo? Pam?
- Pa dirluniau o'ch cwmpas sy'n gyfarwydd i chi? Sut mae'r rhain yn gwneud i chi deimlo? Pam?

## Sgrîn 9

Mae'r diffiniad o gynefin yn y Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys y geiriau 'mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd i'w hadnabod'. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl ynghylch…

- Pa olygfeydd a seiniau y gallwch chi eu hadnabod? Sut mae'r rhain yn gwneud i chi deimlo? Pam?

Gwahoddwch y dysgwyr i gymryd ffotograffau o'r golygfeydd a recordiadau sain o'r seiniau sy'n hawdd eu hadnabod yn eu cynefin. Gallent wneud hyn o gwmpas yr ysgol, gan ychwanegu ffotograffau a recordiadau sain a wnaed o'u cartref ac yn eu hardal leol, at eu casgliad.

## Sgriniau 10-11

Dylai'r ffotograffau a'r recordiadau sain roi ffocws i drafodaethau dosbarth ynghylch sut mae cynefin yn unigryw i bob unigolyn. Gwahoddwch y dysgwyr i gyflwyno eu 'golygfeydd a seiniau sy'n hawdd eu hadnabod' i'r dosbarth.

Gofynnwch iddynt roi adborth ar:

- Sut mae'r golygfeydd a'r seiniau yn debyg i'r rhai yn eich cynefin chi?
- Sut mae'r golygfeydd a'r seiniau yn wahanol i'r rhai yn eich cynefin chi?
- Pam mae'r golygfeydd a'r seiniau yn debyg neu'n wahanol i'r rhai yn eich cynefin chi?

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl…

- Pa leoedd, pobl, tirweddau, golygfeydd a seiniau sy'n bwysig i chi?
- Beth mae cynefin yn ei olygu i chi?

Gallen nhw nodi rhai syniadau i'w defnyddio wrth ddylunio poster, yn unol â'r cyfarwyddyd ar y sgrîn nesaf.

## Sgrîn 13

Gwahoddwch y dysgwyr i greu poster gyda'r teitl 'Beth mae cynefin yn ei olygu i mi?'. Er mwyn cefnogi'r dysgwyr yn y broses o ddatblygu poster, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

-

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n gwneud poster da? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa eiriau sy'n bwysig i'w cynnwys? Pam?
- Pa ddelweddau sy'n bwysig i'w cynnwys? Pam?
- A fyddai'r delweddau hyn i'w cael am ddim? Sut ydych chi'n gwybod? A fyddai hawlfraint arnynt? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Beth yw'r negeseuon allweddol yr hoffech i'r poster eu cyfleu? Pam?
- Sut byddwch chi'n defnyddio lliw yn eich poster? Pam?

### Sgrîn 14

Anogwch y dysgwyr i gymharu eu poster ag eraill yn y dosbarth. Yna, anogwch nhw i werthuso eu poster cynefin nhw eu hunain trwy drafod gyda phartner, gan ddefnyddio'r cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallwn ni wella ein poster? Pam fyddai hyn yn ei wella?

Gofynnir i'r dysgwyr ganolbwyntio ar sut y gwnaethant ddefnyddio:

- o geiriau
- o delweddau
- o negeseuon allweddol
- o lliw.

TASG 2

## SUT MAE POBL LEOL YN CAEL EU HYSBRYDOLI GAN YR AWYR AGORED?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i feddwl pam mae pobl yn defnyddio'r awyr agored a sut maen nhw'n gwneud hynny. Gallent ofyn i'w teulu a'u ffrindiau am eu barn, gan ddefnyddio holiadur ar-lein.

### Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y sgrîn gyntaf, sy'n dangos delweddau o bobl yn defnyddio gwahanol amgylcheddau awyr agored yng Nghymru. Gallant wneud hyn yn annibynnol neu gallwch chi ddangos cynnwys y sgrîn iddyn nhw. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau ar y sgrîn gyda phartner.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r bobl yn y ffotograffau hyn yn defnyddio'r awyr agored? Pam ydych chi'n meddwl eu bod yn gwneud y pethau hyn?
- I ble ydych chi'n mynd yn yr awyr agored? Pam ydych chi'n mynd i'r lleoedd hyn?
- Pwy ydych chi'n eu gweld yno? Beth maen nhw'n ei wneud?
- Pa grwpiau o bobl ydych chi wedi'u gweld yn defnyddio'r awyr agored? Sut maen nhw'n defnyddio'r awyr agored?

Gallech chi drafod eu hatebion gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 4

Mae'r dysgwyr yn mynd i ofyn i bobl sut a pham maen nhw'n defnyddio'r awyr agored. Eglurwch wrthynt y byddan nhw'n creu holiadur gan ddefnyddio Google Forms, er mwyn ei anfon at bobl maen nhw'n eu hadnabod, i ofyn iddyn nhw sut maen nhw'n defnyddio'r awyr agored a pham maen nhw'n gwneud hynny. Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wybodaeth sydd angen i chi ei darganfod?
- I bwy fyddwch chi'n gofyn y cwestiynau?
- Pa fathau o gwestiynau ydych chi'n mynd i'w gofyn?

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn, eglurir y bydd y mathau o gwestiynau y mae dysgwyr yn eu gofyn yn rhoi gwahanol fathau o wybodaeth iddynt.

**Cwestiynau agored**

Os byddwch yn gofyn cwestiynau agored - bydd angen i'r person deipio ateb.

Gall holiadur sy'n cynnwys cwestiynau agored yn unig roi llawer o wybodaeth fanwl i chi. Fodd bynnag, mae'n anodd coladu'r wybodaeth hon, ei harddangos, ei dadansoddi a dod i gasgliadau.

**Cwestiynau caeedig**

Os byddwch yn gofyn cwestiynau caeedig - yna gall y person naill ai roi ateb 'ie/na' neu 'gwir/anwir' neu ddewis o ymatebion posibl (amlddewis) neu flaenoriaethu rhestr o ddatganiadau.

Mae holiadur sy'n cynnwys cwestiynau caeedig yn unig yn tueddu i roi gwybodaeth lai manwl i chi, ond mae'n haws ei chasglu, ei harddangos, ei dadansoddi ac felly dod i gasgliadau. Mae cwestiynau caeedig yn rhoi data i chi, h.y. gwybodaeth ar ffurf rhifau.

Mae'n bwysig fod dysgwyr yn deall sut i ysgrifennu'r mathau gwahanol hyn o gwestiynau cyn iddynt ddechrau creu eu holiadur. Hefyd, efallai y bydd angen i chi ddangos i'r dysgwyr sut mae Google Forms (Saesneg yn unig) yn gweithio a'r mathau o gwestiynau y gellid eu gofyn.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud rhestr o gwestiynau y maen nhw am eu gofyn i bobl a chael mynediad i Google Forms (Saesneg yn unig) a chreu ffurflen sy'n cynnwys eu holl gwestiynau. Anogir y dysgwyr i ofyn am gyfeiriadau e-bost teulu a ffrindiau ac i anfon y ddolen i'w ffurflen atynt. Gallech hefyd awgrymu bod dysgwyr yn gofyn i athrawon a dysgwyr eraill lenwi eu ffurflen trwy ddefnyddio mewnrwyd yr ysgol.

## Sgriniau 7-8

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd angen iddynt ddadansoddi eu data i ddangos:

- Sut mae pobl leol yn defnyddio'r awyr agored.
- Pam mae pobl leol yn defnyddio'r awyr agored.

Gwahoddir y dysgwyr i ddefnyddio eu data a'u gwybodaeth i ddatblygu cyflwyniad 30 eiliad ar gyfer rhannu eu canfyddiadau. Anogwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddwch chi'n cyflwyno'r wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu? Pam?
- Ydych chi wedi casglu digon o wybodaeth i gyflwyno rhywfaint ohoni yn fathemategol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut allech chi ddefnyddio TGCh yn eich cyflwyniad? Pam ei defnyddio fel hyn?
- Beth yw eich casgliadau ynglŷn â sut a pham mae pobl leol yn defnyddio'r awyr agored?
- Sut byddwch chi'n sicrhau mai dim ond 30 eiliad yw hyd eich cyflwyniad?

Yna, gallent gyflwyno eu cyflwyniad i'r dosbarth.

## Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, darperir amrywiaeth o ddyfyniadau i ddysgwyr ynghylch defnyddio'r awyr agored.

- "Gadewch i ni grwydro lle mae'r diwyfr yn wan,"
- "Haw dywedyd 'mynydd' na myned drosto."
- "Nid oes y fath beth â thywydd gwael, dim ond dillad amhriodol."
- "Bwrw hen wragedd a ffyn."
- "Mae'n rhaid i chi ddiffodd y cyfrifiadur a mynd allan o'r tŷ. Rydyn ni'n eistedd o flaen sgriniau ac yn byw yn y byd digidol hwn, ond allan fan hyn mae'r byd go iawn."
- "Dod yn ôl at fy nghoed."

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau cabnlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa un yw eich hoff ddyfyniad? Pam?
- Beth yw ystyr eich hoff ddyfyniad, yn eich barn chi?

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried eu profiadau eu hunain yn yr awyr agored. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa olygfeydd, seiniau ac arogleuon ydych chi'n meddwl amdanynt? Pam?
- Sut a pham ydych chi'n defnyddio'r awyr agored?

Yn olaf, gwahoddwch y dysgwyr i ysgrifennu eu dyfyniad eu hunain i grynhoi eu teimladau am bwysigrwydd treulio amser yn yr awyr agored.

TASG 3

# SUT A PHAM MAE CLYBIAU A CHYMDEITHASAU LLEOL YN DEFNYDDIO'R AWYR AGORED?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod am ystyried sut mae gwahanol sefydliadau'n defnyddio'r awyr agored, a datblygu bathodyn/gwobr i bobl eraill ei gwblhau yn yr awyr agored.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu a gwylio'r fideo (53 eiliad o hyd). Mae'r clip fideo yn tynnu sylw at weithgareddau nodweddiadol y Geidiaid. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa weithgareddau awyr agored welsoch chi?
- Pa rai o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi'u gwneud? Pryd? Ble? I ba raddau wnaethoch chi eu mwynhau? Pam?
- Beth wnaethoch chi ei ddysgu wrth wylio'r fideo?

## Sgrîn 4

Eglurwch fod gan sawl sefydliad lawer o fathodynnau a gwobrau y gellir eu hennill a bod llawer o'r rhain yn cael eu rhoi am gwblhau gweithgareddau a heriau yn yr awyr agored.

Gofynnwch i'r dysgwyr archwilio'r dolenni i ddarganfod mwy am y bathodynnau neu'r gwobrau:

Urdd Gobaith Cymru; John Muir Award (Saesneg yn unig); Guides (Saesneg yn unig); Guides Cymru; Scouts (Saesneg yn unig); Scouts Cymru; Duke of Edinburgh Award (Saesneg yn unig).

Gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Am beth fyddwch chi'n chwilio? Sut byddwch chi'n gwneud hyn? Pam?
- Pa fathodyn neu wobr yw eich ffefryn? Pam?
- Pa dasgau sydd angen i chi eu cwblhau i ennill y bathodyn neu'r wobr hon?
- A fyddech chi'n gallu ennill y bathodyn neu'r wobr hon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgriniau 5-6

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa fathodyn neu wobr y gellid ei gynnig ar dir eu hysgol. Gwahoddwch nhw i fynd allan i archwilio tir yr ysgol er mwyn darganfod:

- Y tasgau y gallech chi ofyn i ddysgwyr iau eu cwblhau.
- Y bathodyn neu'r wobr y gallech ei gynnig pe byddai'r tasgau hyn yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus.

## Sgrîn 7

Anogwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol er mwyn eu helpu i feddwl am y bathodyn neu'r dyfarniad y gallent ei ddatblygu.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa dasgau ydych chi wedi meddwl amdanyn nhw?
- Beth yw thema'r tasgau hyn?
- Sut bydd dysgwyr yn gwybod eu bod wedi cwblhau tasg yn llwyddiannus?
- Beth fydd enw eich bathodyn neu wobr? Pam?
- Beth yw'r gwahanol lefelau y gallwch eu cwblhau?
- Beth fydd yn rhaid i ddysgwyr ei wneud i ennill y bathodyn neu'r dyfarniad lefel uwch?

## Sgrîn 8

Dywedwch wrth y dysgwyr bod yna lawer o glybiau a chymdeithasau sy'n gwneud defnydd o'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau maen nhw'n eu mwynhau ac sy'n eu hysbrydoli.

Gofynnwch i'r dysgwyr benderfynu sut y byddan nhw'n cynnal chwiliad ar y rhyngrwyd i ddod o hyd i **un** clwb neu gymdeithas sy'n defnyddio'r awyr agored. Gwahoddwch nhw i ddefnyddio grid GESDCC i gynllunio a gwneud eu hymchwil a rhannu'r hyn maen nhw'n ei ddarganfod gyda'r dosbarth.

TASG 4

# SUT MAE ARTISTIAID AC AWDURON ENWOG YN GWNEUD DEFNYDD O'R AWYR AGORED YN LLEOL?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i edrych ar enghreifftiau o sut mae artistiaid ac awduron enwog wedi cael eu hysbrydoli gan yr awyr agored. Byddant yn edrych ar artist, barddoniaeth a chelfyddyd tir.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu a gwylio'r fideo Cynefin ar y sgrîn (tua 5 munud, heb y credydau).

Mae'r clip fideo yn amlygu rhan o fywyd Josef Herman a'r hyn roedd yn ei ystyried fel ei gynefin.

Anogwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam y gadawodd Josef Herman Wlad Pwyl?
- Pam y symudodd Josef Herman i Ystradgynlais?
- Sut y gwnaeth symud i Ystradgynlais ysbrydoli Josef?
- Sut mae Josef yn disgrifio ei gynefin?

## Sgrîn 4

Roedd Josef Herman (3 Ionawr 1911 - 19 Chwefror 2000), yn arlunydd Pwylaidd-Prydeinig uchel ei barch a ddylanwadodd ar gelf gyfoes, yn enwedig yn y Deyrnas Unedig. Roedd yn rhan o genhedlaeth o artistiaid Iddewig oedd yn ffoaduriaid o ganolbarth a dwyrain Ewrop ac a ymfudodd er mwyn dianc rhag erledigaeth y Natsïaid. Roedd yn gweld ei hun yn rhan o draddodiad o artistiaid ffigurol Ewropeaidd a oedd yn peintio lluniau gweithwyr, sef traddodiad a oedd yn cynnwys Courbet, Millet a Van Gogh, Kathe Kollwitz a'r artist mynegiadol Fflemaidd, Constant Permeke. Am un mlynedd ar ddeg bu'n byw yn Ystradgynlais, cymuned lofaol yn Ne Cymru.

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Josef Herman yn arlunydd ffigurol a oedd yn peintio lluniau o bobl wrth eu gwaith. Gwahoddwch nhw i edrych ar y gwaith celf ar y sgrîn ac i ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd eich ymateb cyntaf i'r gwaith celf? Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi ymateb fel hyn?
- Beth sy'n digwydd yn y gwaith celf?
- Sut byddech chi'n disgrifio'r gwaith celf i rywun sydd erioed wedi ei weld?
- Beth mae'r artist yn ceisio'i fynegi yn y gwaith celf, yn eich barn chi?
- Beth yw'r stori sy'n cael ei hadrodd, os oes stori o gwbl?
- Beth ddigwyddodd cyn yr olygfa hon efallai, yn eich barn chi?
- Beth ddigwyddodd nesaf, yn eich barn chi?
- Pa emosiynau ydych chi'n eu teimlo wrth edrych ar hyn?

## Sgrîn 5

Dangoswch un o ddarnau celf Josef Herman oddi ar y sgrîn.

Eglurwch wrth y dysgwyr fod arddull Herman wedi cael ei ystyried yn arddull feiddgar a neilltuol, gan gynnwys siapiau cryf heb lawer o fanylion. Ei ysbrydoliaeth oedd y gymuned a phobl wrth eu gwaith.

## Sgrîn 6

Dangoswch y delweddau sy'n dangos 4 math o weithwyr i'r dysgwyr: peirianwyr, criw bad achub, diffoddwyr tân a staff meddygol.

Gwahoddwch nhw i ddewis un o'r delweddau a'i braslunio yn arddull Josef Herman.

Gofynnwch iddyn nhw feddwl sut bydd eu braslun yn...

- bod yn feiddgar ac yn neilltuol
- cynnwys siapiau cryf
- defnyddio cyn lleied o fanylion â phosibl.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu'r dolenni a darllen y cerddi a ysgrifennwyd gan feirdd Cymreig. Wedyn dylent ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa un yw eich hoff gerdd? Pam?

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen y gerdd am yr awyr agored, a meddwl am y cynnwys. Yna, anogwch nhw i ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd eich ymateb cyntaf i'r gerdd? Pam ydych chi'n meddwl y gwnaethoch ymateb fel hyn?
- Am beth mae'r gerdd yn son? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut byddech chi'n disgrifio'r gerdd i rywun sydd erioed wedi ei darllen?
- Pa emosiynau ydych chi'n eu teimlo wrth ddarllen y gerdd?
- Pa eiriau mae'r bardd yn eu defnyddio i ddisgrifio'r awyr agored?
- Sut mae'r gerdd yn eich ysbrydoli ynghylch yr awyr agored?

## Sgriniau 9-10

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ysgrifennu cerdd am yr awyr agored.

Gwahoddwch nhw i fynd allan ar dir yr ysgol neu i'r ardal leol ac i arsylwi ar y bywyd a'r natur y maen nhw'n ei ddarganfod o'u cwmpas.

Gofynnwch iddyn nhw nodi ac ysgrifennu rhai geiriau ac ymadroddion sy'n disgrifio'r hyn maen nhw'n ei glywed, ei weld, ei deimlo a'i arogli. Gallen nhw hefyd dynnu llun unrhyw ddelweddau y dymunant eu hail-greu mewn geiriau yn y gerdd.

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ddefnyddio Chat GPT i'w helpu i ysgrifennu eu cerdd. Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried y cwestiynau canlynol cyn defnyddio Chat GPT.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r geiriau neu'r termau pwysicaf yr ydych chi am eu cynnwys yn eich cerdd? Pam?
- Sut ydych chi'n mynd i sicrhau bod Chat GPT yn defnyddio'r geiriau neu'r termau hyn?
- Pa nodweddion barddoniaeth fyddwch chi'n gofyn i Chat GPT eu defnyddio? Pam defnyddio'r rhain?
- Pa gyfarwyddiadau eraill fyddwch chi'n eu rhoi i Chat GPT? Pam?

Yn dilyn ymlaen o hyn, gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio Chat GPT i ysgrifennu cerdd am yr awyr agored. Unwaith y byddan nhw wedi creu'r gerdd, gofynnwch i'r dysgwyr wirio ei bod yn bodloni eu holl feini prawf. Os nad yw yn eu bodloni i gyd, gofynnwch iddyn nhw roi cynnig arall arni, gan ddefnyddio geiriau a thermau gwahanol. Anogwch nhw i ddarlunio eu cerdd er mwyn ei chyfoethogi.

## Sgrîn 12

Ar y sgrîn hon, gofynnir i'r dysgwyr gyrchu a gwylio fideo sy'n dangos llawer o wahanol fathau o gelf tir: Les plus fabuleuses oeuvres Land Art de la planète (tua 3 munud o hyd).

Ar ôl gwylio'r fideo, gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ddelweddau oeddech chi'n eu hoffi orau? Pam?
- Pa fathau o gelf tir wnaeth eich synnu? Pam wnaethon nhw eich synnu?
- Pa fathau o gelf tir yr hoffech chi allu eu creu? Pam?
- Gan feddwl am dir eich ysgol a'r ardal leol, pa fathau o ddefnyddiau naturiol fyddai ar gael i wneud celf tir.

## Sgriniau 13-14

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddwch yn mynd â nhw y tu allan ac ar dir yr ysgol, neu os yw'n fwy priodol, i'r ardal leol. Gofynnwch iddyn nhw gasglu defnyddiau i'w defnyddio ar gyfer eu celf tir.

Gwahoddwch y dysgwyr i greu eu celf tir ac i gymryd ffotograffau ohoni er mwyn ei dangos i eraill ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Dylent chwalu eu gwaith celf tir os yw'n debygol o achosi perygl i'r cyhoedd neu i fywyd gwyllt.